Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG)

Microsoft Teams

19 Mehefin 2023

Yn bresennol	
Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil (Craffu a Chydraddoldeb)
Lee Jones (LJ)	Prif Weithredwr
Charlotte Amoss (CA)	Arweinydd Strategol – Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Tamara Lafferty (TL)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Paula Hardy (PH)	Arweinydd Strategol – Gwasanaethau Bregusrwydd a Dioddefwyr
Heddlu De Cymru	
Yr Uwch-arolygydd Jason Rees (JR)	Pennaeth Gweithrediadau'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus
Yr Uwch-arolygydd Clayton Ritche (CR)	Adran Diogelu'r Cyhoedd
Carol Woodward (CW)	Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu
Martyn Jones (MJ)	Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Aelodau Partner PALG	
Liz Baker (LB)	Barnardos
Angelika Pastuszko (AP)	Adferiad Recovery
Catherine Docherty (CD)	Byddin yr Iachawdwriaeth
Nicky Nijjer (NN)	EYST
Laura Morgan (LM)	Adferiad Recovery
Raphaelle Sharples (RS)	Adferiad Recovery
Mike Dix-Williams (MDW)	Cymorth i Ddioddefwyr
Paul Dear (PD)	Llywodraeth Cymru
Leila Usmani (LU)	Cynghrair Hil Cymru
Sara Kirkpatrick (SK)	Cymorth i Ferched Cymru
Ebed Akotia (EA)	Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
Lu Thomas (LT)	Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Aelodau Annibynnol PALG	
Alex Drummond (AD) (CADEIRYDD)	Aelod Annibynnol
Tony Esmond (TE)	Aelod Annibynnol
Soraya Kelly (SK)	Aelod Annibynnol

	Eitem	Cynnwys
1.	**Croeso a Chyflwyniadau**	1.1 Croesawodd AD y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau.
2.	**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**	2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

		2.2 Cadarnhaodd TL fod yr holl gamau gweithredu blaenorol wedi'u cwblhau ac eithrio rhai camau gweithredu o gyfarfod PALG Medi 2022 sy'n parhau. Bydd TL yn diweddaru PALG yn y cyfarfod nesaf. **CAM GWEITHREDU** 2.3 Cadarnhaodd TL fod y cynnig i aelodau PALG fynychu ymweliad â'r Ddalfa yn parhau i fod ar agor. Dylai unrhyw un sy'n dymuno mynychu gysylltu â TL. **CAM GWEITHREDU** 2.4 Cadarnhaodd TL fod y cynnig i ymuno â'r Grŵp Ffocws i adolygu dogfennau hygyrchedd PALG yn parhau i fod ar agor. Dylai unrhyw un sy'n dymuno mynychu gysylltu â TL. **CAM GWEITHREDU**
3.	**Cam-drin Domestig: Ymateb Cychwynnol**	3.1 Rhoddodd JR gyflwyniad ar Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Heddlu De Cymru. Cadarnhaodd JR fod gwahoddiad agored i PALG ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymweld â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn gweld sut y caiff ei rhedeg. Dylai unrhyw un sy'n dymuno mynychu gysylltu â TL. **CAM GWEITHREDU** 3.2 Esboniodd JR mai ystafell reoli unigol ar gyfer Heddlu De Cymru yw'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a chyflwynodd ystadegau yn ymwneud â'r nifer o alwadau y mae'r Ganolfan yn ymdrin â nhw yn flynyddol. Esboniodd JR sut y mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio gwasanaethau digidol, megis cyfryngau cymdeithasol a negeseuon e-bost, er mwyn i'r cyhoedd roi gwybod am ddigwyddiadau. 3.3 Esboniodd JR mai'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob digwyddiad. Rhoddodd JR drosolwg o'r ddau brif gam y mae'r Ganolfan yn ymwneud â nhw: cyswllt cychwynnol ac anfon. Disgrifiodd JR y dulliau a ddefnyddir gan y cyhoedd ar gyfer gwneud y cyswllt cychwynnol, gan gynnwys ffonio 999 neu 101, sgwrsio'n fyw, anfon e-bost ac ymweld â'r Ganolfan. 3.4 Rhoddodd JR drosolwg o'r broses y mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei dilyn i asesu risg a graddio digwyddiadau. Esboniodd JR sut y caiff achosion nodweddiadol o gam-drin domestig eu hasesu a'u graddio. Disgrifiodd JR y strwythurau amrywiol sydd ar waith er mwyn craffu a goruchwylio swyddogaeth y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus. 3.5 Cyflwynodd CR drosolwg o'r strategaeth reoli a ddefnyddir ar gyfer achosion o Gam-drin Domestig, sy'n cynnwys cyfathrebu, meithrin perthynas, a gweithio gyda phartneriaid allanol i ddarparu cymorth. Esboniodd CR fod ffocws uwch ar ddulliau i newid ac atal ymddygiad drwgweithredwyr yn ddiweddar. Rhoddodd CR gyfle i'r aelodau wneud sylw ar y strategaethau cyfathrebu y gall Heddlu De Cymru eu defnyddio gyda drwgweithredwyr. 3.6 Gwahanodd y rhai a oedd yn bresennol yn y PALG i ystafelloedd cyfarfod i drafod y cyflwyniad a chawsant eu gwahodd i roi adborth.

		3.7 Roedd yr adborth a'r argymhellion cyffredinol gan PALG yn cynnwys yr angen i Heddlu De Cymru ddeall cymhwysedd diwylliannol er mwyn ennill ymddiriedaeth y gymuned ac ymgysylltu â'r rhai hynny sy'n osgoi rhoi gwybod i'r Heddlu am ddigwyddiadau. Gwnaeth y grŵp drafod y buddiannau sy'n deillio o ddealltwriaeth Heddlu De Cymru am y rhesymau pam nad yw dioddefwyr am fynd ar drywydd achosion a phwysigrwydd cael gafael ar gymorth arbenigol i ddioddefwyr / cyflawnwyr cyn gynted â phosibl. 3.8 Bu'r grŵp yn trafod y gallai'r cyflawnwyr ddefnyddio ofn y dioddefwyr i roi gwybod am ddigwyddiadau er lles eu hunain ac ôl-effeithiau asiantaethau eraill, megis y Gwasanaethau Cymdeithasol. Codwyd pryderon mewn perthynas â buddiannau gordroseddoli rhieni a'i effaith andwyol ar blant. 3.9 Bu'r grŵp yn trafod y rhwystrau sy'n bodoli ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau mewn cymunedau ar yr ymylon a phwysigrwydd gweithio gyda dioddefwyr / cyflawnwyr, hyn yn oed mewn achosion lle na chymerir unrhyw 'Gamau Pellach'. Tynnodd yr adborth sylw at y ffaith ei bod yn bwysig i Swyddogion yr Heddlu fabwysiadu dull cyson yn ogystal â'r risg i Swyddogion yr Heddlu o ddioddef blinder neu ddallineb i risgiau. 3.10 Trafododd y grŵp ddefnydd Heddlu Kent o 'ymateb fideo cyflym' (RVR) gydag achosion o Gam-drin Domestig a'r posibilrwydd y gallai Heddlu De Cymru ddefnyddio system debyg. 3.1 1 Trafododd y grŵp yr hyn y mae Heddlu De Cymru yn ei wneud mewn perthynas ag achosion o gam-drin rhywiol pan fydd y dioddefwr o gefndir ethnig leiafrifol a'r ymgyrch eang ar 'Ddeddf Valerie'. Rhoddodd CR drosolwg o sefyllfa bresennol Heddlu De Cymru a'r ffocws ar y broses o gofnodi gwybodaeth yn gywir.
4.	**Archwiliad Dwfn o Graffu ac Atebolrwydd – Cam-drin Domestig** Trafodaeth grŵp ac adborth ar y pwnc nesaf.	4.1 Rhoddodd CA drosolwg o Archwiliad Dwfn y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd sydd ar ddod a chadarnhaodd mai'r pwnc fydd Cam-drin Domestig. 4.2 Cadarnhaod CA y bydd y tîm yn defnyddio ymatebion PALG o'r cyfarfod hwn yn y gwaith ymchwil ar gyfer yr Archwiliad Dwfn. Cadarnhaodd CA y bydd TL yn cysylltu ag aelodau PALG i drefnu sesiynau Grŵp Ffocws er mwyn cael rhagor o adborth ar y maes hwn. **CAM GWEITHREDU** 4.3 Rhoddodd CA drosolwg cyffredinol o'r pynciau ar gyfer cyfarfodydd PALG sydd i ddod a chynhadledd PALG posibl. Rhoddodd CA wahoddiad i'r aelodau fynegi unrhyw feysydd o ddiddordeb er mwyn eu hymgorffori yn yr amserlen.
5.	**5. Diweddariadau gan Bartneriaid a Materion i'w Codi**	5.1 Rhannodd NN fod y Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST) yn rhedeg clwb ieuenctid yn Abertawe a'i fod yn gobeithio ei gyflwyno yn Wrecsam, Casnewydd a Chaerdydd. Estynnodd NN wahoddiad i aelodau PALG gysylltu ag ef ynghylch trefniadau noddi'r clwb ieuenctid neu deithiau / gweithgareddau. Bydd SG yn rhoi NN mewn cysylltiad â'r Uned Atal Trais. **CAM GWEITHREDU**

		5.2 Rhannodd LU ei bod wrthi'n gweithio i greu briff ymchwil i'w roi i Heddluoedd Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â'r diffyg cysylltiad rhwng trefniadau Stopio a Chwilio a Stopio a Rhoi Cyfrif, a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar ganfyddiadau aelodau'r gymuned. Estynnodd LU wahoddiad i'r aelodau gysylltu â hi gydag unrhyw wybodaeth neu ffynonellau seiliedig ar lenyddiaeth ar y maes hwn. 5.3 Mynegodd SK y byddai'n ddefnyddiol pe bai Heddlu De Cymru yn darparu gwybodaeth am y camau y mae wedi'u cymryd mewn ymateb i achosion o Gam-drin a Gyflawnwyd gan Aelodau o'r Heddlu. 5.4 TL i anfon e-bost at aelodau PALG yn cynnwys y diweddariadau partner hyn. **CAM GWEITHREDU**
6.	**Unrhyw Fater Arall** • Dyddiau Gwirfoddoli Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	6.1 Rhannodd TL fod Tîm Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gobeithio trefnu 'dyddiau gwirfoddoli' lle y bydd aelod o'r tîm yn mynychu sefydliad un o aelodau PALG i gyflawni gwaith gwirfoddol. Bydd TL yn anfon e-bost at aelodau PALG yn yr wythnosau nesaf i gasglu enwau'r unigolion sydd â diddordeb. **CAM GWEITHREDU** 6.2 Ni chododd unrhyw un unrhyw fusnes arall. Diolchodd AD i'r rhai a oedd yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.

Tabl Camau Gweithredu

Cam Gweithredu	Perchennog
TL i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gamau Gweithredu 2022 mewn perthynas â Throseddau Casineb yng nghyfarfod nesaf PALG.	TL
Aelodau sy'n dymuno mynychu Ymweliad â'r Ddalfa i gysylltu â TL.	Aelodau
Aelodau sy'n dymuno mynychu'r Grŵp Ffocws mewn perthynas â dogfennau hygyrchedd PALG i gysylltu â TL.	Aelodau
Aelodau sy'n dymuno mynychu ymweliad â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus i gysylltu â TL.	Aelodau
TL i anfon e-bost at PALG yn cynnwys diweddariadau partner.	TL
SG i gysylltu â NN ynghylch yr Uned Atal Trais.	TL
TL i gysylltu â'r aelodau ynghylch sesiynau Archwiliad Dwfn y Grŵp Ffocws.	TL

TL i gysylltu â'r aelodau ynghylch Dyddiau Gwirfoddoli Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.	TL